**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**
—
**Economy, Trade, and Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

Huw Irranca-Davies AS
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet
dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig

20 Tachwedd 2024

Annwyl Huw,

**Ymateb i ymgynghoriad ar ddiwygiadau i'r Cyd-ddatganiad ar Bysgodfeydd**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 6 Tachwedd 2024 mewn ymateb i'n hymholiadau ar ymgynghoriad ar y cyd y DU ar ddiwygiadau i'r Cyd-ddatganiad ar Bysgodfeydd. Roeddem yn ddiolchgar am eich atebion cynhwysfawr, ac rydym yn cydnabod y rhesymeg a nodir am y penderfyniadau sy'n cael eu gwneud, yn enwedig mewn perthynas â chael gwared ar Weinidogion Cymru fel awdurdod cyfrifol am nifer o Gynlluniau Rheoli Pysgodfeydd.

Nodwn y byddwch yn gofyn i'ch swyddogion, drwy eu hymgysylltiad â Gweithgor Cynlluniau Rheoli Pysgodfeydd y DU, argymell y dylai ystyried awdurdodau cyfrifol fod yn rhan safonol o adolygiad o bob Cynllun Rheoli Pysgodfeydd. Credwn y byddai hwn yn newid pwysig ac felly byddem yn ddiolchgar pe gallech gadarnhau pryd y caiff hyn ei ddatblygu.

Fel rhan o'n hystyriaeth o'r ymgynghoriad, fe wnaethom ni estyn allan i ofyn am farn rhanddeiliaid. Cawsom un ymateb, a hynny gan Gymdeithas Pysgotwyr Cymru.[1] Yn ei lythyr, mae'r Gymdeithas yn manylu ar ei hymatebion i'r ymgynghoriad, a nodwn eu bod yn weddol gefnogol i'r diwygiadau arfaethedig.

Ar wahân i hyn, rydym yn nodi nad yw cofnodion Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar gyfer Pysgodfeydd Cymru wedi'u diweddaru ers 9 Tachwedd 2023. Er mwyn gwella tryloywder, a'n galluogi i fonitro a

[1] Llythyr gan Gymdeithas Pysgotwyr Cymru - Welsh Fishermen's Association, Tachwedd 2024

chraffu ar waith yn effeithiol yn y maes hwn, byddem yn ddiolchgar pe gellid diweddaru'r dudalen cyn gynted â phosibl.

Cofion cynnes,

Paul Davies AS
Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg